Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Wirfoddol Llanllwni
# Llanllwni
# Pencader
# SA39 9DX

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Wirfoddol Llanllwni

Lleolir Ysgol Wirfoddol Reoledig Llanllwni ym mhentref Llanllwni, yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 38 disgybl rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 3 sydd o oed meithrin ac yn mynychu'n amser llawn. Trefnir y disgyblion mewn dau ddosbarth oed cymysg.

Tros dreigl tair blynedd, tua thri y cant o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol, sy'n 18%. Mae 65% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac mae 13% â Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 18% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2013 ac mae o dan ofalaeth pennaeth ysgol gyfagos ers 2015, sy'n treulio dau ddiwrnod yr wythnos yno.

Nid yw Estyn yn arolygu addysg grefyddol na chynnwys crefyddol addoli ar y cyd pan fydd cymeriad crefyddol gan yr ysgol. Yn hytrach, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r corff llywodraethol drefnu bod addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn cael eu harolygu ar wahân.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae’r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy’n annog ei disgyblion i ddatblygu lefel uchel o barch a goddefgarwch at eraill. Mae ymddygiad y disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae llawer o’r disgyblion, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd cadarn o’u man cychwyn.

Mae’r staff yn cydweithio’n agos a chynhaliol fel tîm mewn amgylchedd Cymreig. Fodd bynnag, nid oes gan athrawon bob amser ddisgwyliadau digon uchel o ran safonau na dyhead academaidd disgyblion. O ganlyniad, nid yw tua hanner y disgyblion yn datblygu’n ddysgwyr annibynnol nac yn rhai uchelgeisiol.

Mae arweinwyr yn adnabod cryfderau’r ysgol yn dda ac, ar y cyfan, y meysydd ar gyfer gwelliant. Fodd bynnag, nid yw’r gweithdrefnau monitro na’r cynlluniau gwella bob amser yn ddigon cadarn i adnabod nac i fynd i’r afael â materion pwysig sydd angen eu gwella.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod holl weithdrefnau monitro a chynlluniau gwella'r ysgol yn glir ac yn canolbwyntio'n gadarn ar wella'r safonau a ddarpariaeth

A2 Gwreiddio holl egwyddorion y cyfnod sylfaen i sicrhau bod pob disgybl yn datblygu medrau dysgu annibynnol da

A3 Codi disgwyliadau athrawon er mwyn darparu her briodol i ddisgyblion gyflawni hyd eithaf eu gallu

A4 Gwella medrau darllen disgyblion yn y Gymraeg ac yn Saesneg, lle bo'n briodol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol tua hanner o'r disgyblion yn uwch na'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae llawer o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd cadarn o'u man cychwyn. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cynnydd y mae ychydig o'r disgyblion sy'n fwy abl yn ei wneud.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n dda ar eu hathrawon ac yn barod iawn i gynnig atebion neu sylwadau wrth drafod eu gwaith gyda'i gilydd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu defnydd o'r Gymraeg o'r amser maent yn dechrau yn yr ysgol. Er enghraifft, maent yn perfformio sioeau yn theatr y dosbarth, yn seiliedig ar gymeriadau llyfr 'Ryan a'i wobr ben-blwydd', yn naturiol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n gadarn yn y Gymraeg wrth drin a thrafod mewn amrywiol bynciau. Mae ychydig o ddisgyblion yn llai hyderus yn cyfathrebu yn Saesneg ac wrth newid o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n addas yn unol â'u hoed a'u gallu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a synau ac maent yn dechrau creu geiriau'n hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn datblygu i fod yn ddarllenwyr pwrpasol ac yn darllen gyda chywirdeb a rhugldeb. Trwy gydol cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddarllenwyr cymedrol yn y Gymraeg a Saesneg. Mae llawer ohonynt yn defnyddio eu medrau darllen yn hyderus i drefnu gwybodaeth o ffynonellau amrywiol wrth olrhain hanes arferion Nadolig yn oes y Frenhines Fictoria, er enghraifft. Er hyn, dim ond ychydig o'r disgyblion sy'n dangos mwynhad wrth ddarllen ac yn ymhelaethu wrth drafod eu hoff lyfrau.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gallu i ysgrifennu at bwrpasau gwahanol. Defnyddiant eirfa ac ymadroddion cynyddol gymhleth, gan ddechrau amrywio brawddegau'n syml a defnyddio atalnodi yn bwrpasol wrth iddynt ysgrifennu adroddiad am yr hydref, er enghraifft. Fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio sgaffaldau yn aml, sy'n cyfyngu ar eu gallu i ysgrifennu'n annibynnol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif yn defnyddio amrywiaeth o ffurfiau ysgrifennu yn effeithiol yn y ddwy iaith. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn cyflwyno'u syniadau a gwybodaeth yn effeithiol ac yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi yn y ddwy iaith. Enghraifft dda o hyn yw'r portread maent wedi ei ysgrifennu ar Twm Carnabwth a'r sgriptiau maent wedi eu creu o stori 'The Stick Man'. Mae safon llawysgrifen a chyflwyniad gwaith yn amrywio gormod ar draws yr ysgol.

Mae gan ran fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen ddealltwriaeth dda o gysyniadau rhifedd penodol. Mae llawer o ddisgyblion oed derbyn yn datblygu eu dealltwriaeth o iaith fathemategol trwy fesur hyd gwahanol sgarffiau gan ddefnyddio unedau ansafonol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn defnyddio eu gwybodaeth am rifedd er mwyn darganfod hanner a chwarter rhif yn effeithiol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn creu graffiau yn effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn

dehongli data yn synhwyrol, er enghraifft wrth gasglu gwybodaeth am y tegan mwyaf poblogaidd yn y dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau mathemategol mewn gwersi mathemateg gan adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhif yn hyderus i gasglu, cofnodi a dadansoddi data. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigon cyson nac i'r un lefel pan maent yn gweithio'n annibynnol.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarnhaol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn creu a chyflwyno gwybodaeth yn llwyddiannus wrth ddefnyddio rhaglen prosesu geiriau ac mae ychydig o ddisgyblion yn ebostio syniadau i'w gilydd yn hyderus. Maent yn defnyddio llechen electronig yn effeithiol wrth gasglu a chyflwyno data ac i recordio gwersi er mwyn eu hasesu. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r rhyngrwyd yn effeithiol i chwilio am wybodaeth ac maent yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus wrth gyflwyno eu gwaith ar eu hoff ddiddordebau. Maent yn dechrau defnyddio taenlenni'n addas er mwyn cyfrifo capasiti gwahanol stadiymau yn Japan a chreu bas data o hoff chwaraeon disgyblion yr ysgol yn effeithiol. Mae disgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau rheoli'n llwyddiannus drwy ddefnyddio argraffydd tri dimensiwn i greu nwyddau ar gyfer ffair Nadolig yr ysgol.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un disgybl yn dangos balchder am eu hysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel yna, ac yn hapus i drafod unrhyw bryderon gydag aelodau staff. Mae gan ran fwyaf o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel ar-lein.

Mae ymddygiad bron pob un disgybl yn gyson dda. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, y staff ac ymwelwyr. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn cydweithio a chyd-chwarae yn llwyddiannus. Cefnogir yr ethos o deulu ac agosatrwydd y disgyblion at ei gilydd yn effeithiol iawn drwy waith 'bydis y buarth'. Mae'r 'bydis' yn wyliadwrus iawn o ddisgyblion y cyfnod sylfaen ac yn mynd yn syth i gynnig cymorth i unrhyw ddisgybl sydd angen ffrind.

Mae gan ran fwyaf o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach trwy fwyta diet cytbwys ac yfed dŵr yn rheolaidd. Mae dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion o bwysigrwydd cadw'n heini yn datblygu'n dda. Er enghraifft, trwy eu thema 'sut i gadw'r corff yn iach', mae disgyblion Blwyddyn 6 yn trafod yr effaith mae ymarferion corfforol yn ei chael ar y corff yn ddeallus.

Mae gan lawer o'r disgyblion ar draws yr ysgol agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau'r athrawon ac yn canolbwyntio'n dda ar eu gwaith yn ystod gwersi. Mae'r rhan fwyaf yn ddysgwyr brwdfrydig, sy'n ymroi i brofiadau newydd yn hyderus. Er enghraifft, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn dangos gwydnwch a dyfalbarhad effeithiol wrth iddynt greu car rasio tri dimensiwn unigryw o'u cynlluniau eu hunain ar gyfer cystadleuaeth ysgolion 'Cwmni'. Mae'r cydweithio llwyddiannus hwn yn nodwedd gref ac yn weladwy yn y ddau ddosbarth. Mae disgyblion yn dangos parch tuag at gyfraniadau eraill ac mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn gadarnhaol i syniadau ei gilydd. Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau cyfrannu'n fuddiol i'w dysgu trwy gynnig syniadau i'w cynnwys yn ystod heriau'r

thema. Mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn awyddus i ddatblygu eu medrau corfforol trwy chwarae gêm o rygbi cyffwrdd, er enghraifft. Mae disgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 yn dechrau datblygu dealltwriaeth addas o sut i wella eu gwaith eu hunain.

Mae'r disgyblion yn cymryd cyfrifoldebau yn frwdfrydig. Maent yn dechrau ymgymryd â'u gwaith yn gydwybodol a hyderus, gan arddangos dealltwriaeth effeithiol o'u rolau arwain o fewn yr ysgol. Mae aelodau'r cynghorau ysgol a'r criw Cymraeg yn cyfrannu'n fuddiol i fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae'r criw Cymraeg wedi trefnu sesiwn dawnsio gwerin i hybu dealltwriaeth eu cyd-ddisgyblion o ddiwylliant Cymreig yn llwyddiannus yn ystod wythnos 'Cymraeg cŵl'.

Mae cysylltiadau agos yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Mae bron pob un disgybl yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau fel canu mewn gŵyl fwyd gyfagos, a thrwy gydweithio â ffermwyr ifainc sy'n gyn-ddisgyblion i drefnu 'Diwrnod hwyl Llanllwni'. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn cymdeithasu â henoed y pentref i wrando ar hanesion yr ardal. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u cynefin yn ddeallus ac yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesol a chydwybodol. Mae llawer o ddisgyblion yn rhan o gynllunio gweithgareddau i godi arian tuag at elusennau lleol a chenedlaethol sy'n codi eu hymwybyddiaeth o faterion cymunedol yn bwrpasol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae'r staff yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddysgu am nodweddion eu hardal, ynghyd â hanes a diwylliant Cymru, trwy ystod o weithgareddau buddiol yn yr ysgol ac yn ystod ymweliadau â mannau diddorol. Enghraifft dda o hyn yw ymweliad cyfnod allweddol 2 i Lyn y Fan Fach i gryfhau gwybodaeth y disgyblion o chwedl Merch Llyn y Fan Fach. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion gymharu eu hamgylchedd nhw gyda rhai gwrthgyferbyniol fel Caerdydd a Llangrannog yn llwyddiannus. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn galluogi llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd da wrth gaffael yr iaith, a'i defnyddio mewn cyd-destunau gwahanol. Mae'r staff yn defnyddio'r 'Criw Cymraeg' yn effeithlon i hyrwyddo'r iaith Gymraeg i'w cyfoedion trwy chwarae gemau Cymraeg gyda nhw ar y buarth. Ar y cyfan, mae'r staff yn modelu iaith lafar gywir i'r disgyblion yn y Gymraeg, o fewn gwersi ac ar adegau eraill.

Mae'r athrawon yn cynllunio themâu amrywiol sy'n hybu'r dysgu ac, ar y cyfan, yn ategu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion yn gadarn. Maent yn darparu profiadau amrywiol i ddisgyblion, sy'n ennyn eu diddordeb yn llwyddiannus. Er enghraifft, ymwelodd cynrychiolydd o gwmni ynni adnewyddadwy â'r ysgol i gyflwyno a thrafod y ddadl o blaid ac yn erbyn fferm melinau gwynt i ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Mae gweithgareddau fel hyn yn cyfoethogi'r dysgu yn effeithiol.

Yn ddiweddar iawn, mae'r staff wedi dechrau addasu eu cynllunio er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru. Maent wedi cyflwyno sesiynau 'heriau' yng nghyfnod allweddol 2, i annog disgyblion i gydweithio mewn grwpiau bach ac i ddarganfod ac archwilio pynciau amrywiol. Enghraifft dda o hyn yw'r gweithgaredd i greu bas data ar faeth gwahanol fwydydd. Mae nifer o gyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd ar draws meysydd eraill y cwricwlwm. Yn yr un modd, mae'r athrawon yn cynllunio'n llwyddiannus ar gyfer

cyflwyno gofynion y fframwaith cymhwysedd digidol i'r disgyblion.  Maent yn darparu cyfleoedd effeithiol i'w galluogi i ddefnyddio'u medrau TGCh yn rheolaidd mewn pynciau eraill, fel cyflwyno chwedl Gymraeg drwy greu clip sain.  Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau hir dymor bob amser yn nodi'n ddigon clir sut mae'r profiadau dysgu mewn gwyddoniaeth nac agweddau penodol eraill o'r cwricwlwm yn adeiladu'n ddigon trefnus ar fedrau, gwybodaeth bresennol a dealltwriaeth disgyblion ar draws yr ysgol.  Anghyson hefyd yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd mewn pynciau amrywiol.

Mae arferion gorau'r addysgu yn seiliedig ar gydweithio effeithiol rhwng yr athrawon a staff cymorth i ddarparu profiadau dysgu diddorol yn rheolaidd i'r disgyblion.  Mae'r staff, mewn tua hanner y gwersi, yn atgoffa'r disgyblion yn effeithiol am eu dysgu blaenorol ac yn cyflwyno amcanion dysgu a chyfarwyddiadau yn glir iddynt.  Maent yn holi ystod eang o gwestiynau buddiol iddynt sy'n eu helpu i ymestyn eu dysgu yn llwyddiannus.  Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw disgwyliadau'r staff o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn gyson.  O ganlyniad, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn ddigon heriol, yn arbennig ar gyfer y disgyblion uwch eu gallu.

Mae athrawon yn rhoi adborth llafar pwrpasol i ddisgyblion am ansawdd eu gwaith.  Mae'r sylwadau ysgrifenedig i ddathlu llwyddiant y disgyblion yn gyson ar draws yr ysgol ond nid yw'r camau nesaf yn ddigon penodol i ddatblygu medrau'r disgyblion ymhellach.  Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau asesu eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion yn foddhaol.

Mae mwyafrif o egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu'n addas.  Mae'r athrawon yn darparu gweithgareddau ffocws priodol i'r disgyblion ond prin yw'r cyfleoedd iddynt ddatblygu eu medrau annibynnol trwy weithgareddau parhaus.  Mae oedolion yn aml yn gor-arwain gweithgareddau ac, o ganlyniad, yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau penodol ynglŷn â'u dysgu.  Prin yw'r defnydd o'r ardal allanol i ddatblygu medrau creadigol a chorfforol y disgyblion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da

Mae ansawdd y gofal, cymorth ac arweiniad sy'n cael ei ddarparu gan yr ysgol yn effeithiol ac yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd, fel gonestrwydd a thegwch.  Mae'r ethos gofalgar a chynhwysol yn cael effaith gadarnhaol ar les ac ymddygiad y disgyblion.  Mae staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn ymateb yn sensitif ac yn effeithiol i'w hanghenion emosiynol unigol.  O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac mae hyn yn helpu i ddatblygu eu hunanhyder a'u hunan-barch.

Mae gan yr ysgol systemau effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd a lles disgyblion ar eu taith drwy'r ysgol.  Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol er mwyn adnabod disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig mewn llythrennedd neu rifedd ac i ddarparu ymyrraeth ar eu cyfer, pan fo angen.  Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion addysgol arbennig gynllun dysgu priodol sy'n canolbwyntio'n dda iawn ar eu hanghenion penodol.  Mae'r targedau yn addas ac yn cael eu rhannu'n bwrpasol â staff, rhieni a disgyblion.  Mae staff yn darparu ymyrraeth fuddiol i gynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd da tuag at eu targedau.  Mae athrawon yn gweithio gyda disgyblion a rhieni i fonitro'r cynlluniau hyn yn rheolaidd.

Mae cyswllt cadarn yn bodoli rhwng yr ysgol â'r rhieni, gyda'r holl aelodau staff yn hybu diwylliant agored a chydweithredol, sy'n llwyddo i sicrhau eu hymrwymiad a'u cefnogaeth fuddiol. Mae'r defnydd cynyddol o gyfryngau cymdeithasol yn llwyddo'n dda i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni am ddigwyddiadau a gweithgareddau'r ysgol. Mae'r gymdeithas rhieni yn cydweithio'n agos â'r ysgol i drefnu gweithgareddau yn ystod y dydd ac yn yr ardal leol. Mae hyn yn cryfhau'r ethos cymunedol yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd niferus i ddisgyblion ddweud eu dweud trwy amryw fforymau disgyblion. Caiff y rhain effaith gadarnhaol ar les y disgyblion ac i fywyd dyddiol yr ysgol. Enghraifft dda yw cyfraniad y cyngor ysgol i'r polisi gwisg ysgol newydd gan sicrhau bod gofynion y polisi yn addas ar gyfer pob rhyw.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau moesol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol. Trwy wasanaethau ar y cyd, cysylltiad agos â'r ficer lleol a chymryd rhan mewn gwasanaethau arbennig yn eglwys y pentref, caiff medrau ysbrydol y disgyblion eu datblygu'n briodol. Mae'r staff yn dechrau cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth a'u gwybodaeth am rannau eraill o'r byd yn addas. Fodd bynnag, prin iawn yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ystyried credoau a diwylliannau gwahanol ac i fyfyrio ar werthoedd.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r staff yn annog disgyblion i fwyta diet iach drwy ddarparu siop ffrwythau ac i yfed dŵr yn aml yn ystod y dydd. Mae'r clybiau allgyrsiol a gwaith y llysgenhadon efydd yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion yn llwyddiannus o bwysigrwydd cadw'n heini. Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol ag ystod eang o asiantaethau allanol sy'n darparu cymorth da i ddysgwyr. Enghraifft dda o hyn yw ymweliad rheolaidd swyddog cyswllt yr heddlu i addysgu'r disgyblion am ystod o bynciau sy'n ymwneud â chadw'n ddiogel, fel camddefnyddio sylweddau.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau diwylliannol a chreadigol disgyblion yn gadarn. Mae'r ysgol yn datblygu traddodiad sy'n sicrhau cyfleoedd rheolaidd a buddiol i ddisgyblion gymryd rhan mewn cyngherddau, cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd a chymryd rhan mewn seremoni cadeirio eisteddfod gyfagos. Gwneir defnydd priodol o ymwelwyr i ehangu profiadau celfyddydol y disgyblion, er enghraifft wrth iddynt gydweithio ag artist o Gymru i greu baneri deniadol. Mae'r cyfleoedd hyn yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn addas ac yn codi eu hunanhyder yn effeithlon.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella

Mae'r pennaeth, mewn ymgynghoriad a'r rhanddeiliaid eraill, wedi datblygu gweledigaeth sy'n sail i'r ethos cynhwysol a gofalgar sy'n bodoli yn yr ysgol. Mae'r holl staff a chymuned yr ysgol yn cydweithio'n dda i sicrhau bod lles y disgyblion yn ganolog i'w gwaith. Mae'r datganiad o genhadaeth, sef '*Ysbrydoli Plant - Ysbrydoli'r dyfodol',* yn greiddiol i ychydig o'r mentrau a gyflwynir i'r disgyblion, er enghraifft wrth iddynt gymryd rhan mewn cywaith ymarferol i ddatblygu eu medrau cyfathrebu a chreadigol. At ei gilydd, mae arweinyddiaeth yr ysgol yn sicrhau bod llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae’r staff yn ymroddgar ac yn cydweithio’n agos fel tîm, gan ymgymryd â’u cyfrifoldebau yn gydwybodol. Maent yn dangos ymrwymiad pwrpasol i hyrwyddo gwelliannau trwy ddod at ei gilydd i drafod cynnydd yn rheolaidd a chynllunio ar y cyd. Mae hyn yn rhoi ffocws priodol i waith y staff. Fodd bynnag, anghyson yw eu cyfraniadau i geisio sicrhau gwelliannau yn yr hir dymor.

Mae’r ysgol yn dechrau ymateb yn bwrpasol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae’r staff yn paratoi’n frwdfrydig i ddechrau ymateb i ofynion y cwricwlwm newydd i Gymru a gwelwyd hefyd effaith gadarnhaol menter benodol ar wella ethos Cymreig yr ysgol.

Mae’r ysgol yn datblygu yn gymuned ddysgu briodol. Mae’r trefniadau rheoli perfformiad yn cyfrannu’n foddhaol at ddatblygiad proffesiynol y staff ac i’w galluogi i wella eu harfer. Mae hyn wedi datblygu ymhellach yn ddiweddar, wrth iddynt gydweithio’n benodol ag ysgolion lleol eraill i ddatblygu llais y disgybl fel rhan o’u cynllunio, er enghraifft. Mae hyn yn ymddangos fel petai wedi dechrau gwella cyfleoedd i ddisgyblion i ddatblygu eu medrau yn annibynnol a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain yng nghyfnod allweddol 2 ond mae’n rhy gynnar eto i fesur gwir effaith y strategaeth hon ar safonau.

O dan arweiniad y pennaeth, mae'r ysgol, dros amser, wedi ymgymryd ag ystod niferus o weithgareddau hunanwerthuso. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddi data perfformiad disgyblion, craffu ar eu gwaith, arsylwi gwersi a holi barn disgyblion a’u rhieni. Er bod y prosesau hyn yn galluogi'r ysgol i nodi blaenoriaethau gwella defnyddiol, nid yw’r camau gweithredu’n ddigon cadarn ac nid yw arweinwyr yn clustnodi digon o amser i’r targedau wreiddio a chael effaith ddigon cadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau cyrhaeddiad disgyblion. Nid yw blaenoriaethau presennol y cynllun datblygu yn adlewyrchu’n ddigon agos wir sefyllfa’r ysgol o ran adnabod yr angen i wella meysydd pwysig fel sicrhau cwricwlwm cytbwys i bob disgybl a chysoni safon yr addysgu.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn effeithiol. Trwy adroddiadau rheolaidd gan y pennaeth, dadansoddi data a chynnal ymweliadau â'r ysgol, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o gyrhaeddiad a chynnydd disgyblion. Yn eu rôl fel ffrindiau beirniadol, mae’r aelodau yn dechrau herio’r ysgol yn achlysurol a’i dwyn i gyfrif am ei pherfformiad.

Mae gan yr ysgol lefel addas o staff addysgu a staff ategol, ac mae’n gwneud defnydd priodol ohonynt i roi cymorth i unigolion ac i gyfoethogi’r dysgu. Mae gwariant yn cysylltu’n agos ag amcanion, targedau a chynlluniau gwella’r ysgol. Er bod y pennaeth a’r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus, gan sicrhau y caiff adnoddau ariannol eu defnyddio’n llawn i ategu blaenoriaethau ar gyfer gwella, mae’r ysgol mewn sefyllfa o orwariant. Gwneir defnydd darbodus o’r grant datblygu disgyblion i wella’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a lles yr ychydig ddisgyblion sy’n deilwng i’w dderbyn. O ganlyniad, mae’r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn. Mae’r ysgol yn elwa o gyfraniad sylweddol a chyson y gymdeithas rhieni i ehangu’r profiadau mae’r disgyblion yn eu derbyn y tu hwnt i’r ysgol. Nodwedd gref yw’r modd mae’r ysgol yn llwyddo i ddenu nawdd sylweddol gan gwmni cynhyrchu ynni cyfagos i gyfrannu tuag at brynu adnoddau technoleg. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar wella medrau TGCh y disgyblion.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol/aelodau’r pwyllgor rheoli’ trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/01/2020